

**PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 20 MAWRTH 2024**

**COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD HYBRID IN COMMITTEE ROOMS 2&3 AND REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD MERCHER, 20 MAWRTH 2024 09:30**

Yn bresennol

Cynghorydd N Farr – Cadeirydd

A R Berrow  
E D Winstanley

H J David

J Gebbie

J C Spanswick

Yn Bresennol yn Rhithiol

J P D Blundell  
A Wathan

M J Evans  
AJ Williams

D M Hughes

RL Penhale-Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Goode, HM Williams a Claire Marchant

Swyddogion:

Kirsty Williams  
Wendi Briggs  
Philip O'Brien  
Zoe Edwards  
Michael Pitman  
Stephen Griffiths  
Oscar Roberts

Rheolwr Partneriaethau a CSP  
Rheolwr VAWDASV  
Rheolwr Grŵp - Trawsnewid, Gwasanaethau Cwsmer a Phartneriaethau  
Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldebau  
Swyddog Cymorth Technegol Gwasanaethau Democraidaidd  
Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd - Pwyllgorau  
Prentis Gweinyddu Busnes Gwasanaethau Democraidaidd

Datganiadau o Fuddiant

Cyhoeddodd y Cyng RL Penhale ddatganiad o fuddiant yn eitem 4, gan ei fod yn cael ei gyflogi'n llawn-amser gan elusen ar gydraddoldebau.

**PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 20 MAWRTH 2024**

Cyhoeddodd J Spanswick ddatganiad o fuddiant yn eitem 4, gan fod aelod o'r teulu'n gweithio yn yr uned a drafodir.

**39. Cymeradwyo Cofnodion**

Penderfyniad	<u>PENDERFYNWYD:</u> Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldebau dyddiedig 08/11/ 2023 fel gwir gofnod manwl gywir.
Dyddiad y Penderfyniad	20 Mawrth 2024

**40. Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol**

Penderfyniad	<p>Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Rheolwr Partneriaethau a CSP ar y gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth Camdriniaeth yn y Cartref, a'r wybodaeth a gasglwyd gan y tîm mewnol a gan bartneriaid lleol, i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith Llywodraeth Cymru ac amcanion Cwm Twf Morgannwg. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu ystod o bynciau ynghylch achosion o drais yn seiliedig ar rywedd, camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol, dulliau atal yn sgil hynny a dadansoddiad o'r gwasanaethau sy'n delio â'r materion hyn.</p> <p>Cyflwynodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gwaith ynghlwm ag atgyfeiriad gyda theulu a chyd-ddibynyddion</li><li>• Deilliannau gweithred ac arolwg posib o'r canlyniadau</li><li>• Cydgordio gyda chydweithwyr ynghylch opsiynau tai</li><li>• Amllder salwch yn y gwasanaeth</li><li>• Sicrhau bod dioddefwyr gwrywaidd yn cael digon o gymorth</li><li>• Gwaith ymgysylltu â Heddlu De Cymru a gweithwyr iechyd proffesiynol</li></ul> <p>Bu i'r Rheolwr Partneriaethau a CSP a'r Rheolwr VAWDASV ddelio â'r cwestiynau hyn, gan gynnwys cytuno i anfon e-bost ynghylch data salwch i'r Cadeirydd ei rannu ac i drafod gwelliannau posib ynghylch dioddefwyr gwrywaidd yn y grŵp rhanbarthol o'r CTM. Awgrymwyd hefyd y dylid gwahodd aelodau o Heddlu De Cymru a chydweithwyr iechyd i'r adolygiad nesaf o'r VAWDASV.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor, gan ddiolch i'r tîm am eu gwaith diflino ac am gefnogi aelodau bregus o'r gymuned.</p>
--------------	--

**PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB - DYDD MERCHER, 20 MAWRTH 2024**

Dyddiad y Penderfyniad	20 Mawrth 2024
------------------------	----------------

**41. Eitemau Brys**

Penderfyniad	Dim.
Dyddiad y Penderfyniad	20 Mawrth 2024

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:57.